# Ysgol Llan-y-pwll - Rhesymwaith ar gyfer Cwricwlwm





## Ein Gweledigaeth

Bydd Ysgol Llan-y-pwll yn ysgol lle mae pob disgybl yn gyfartal ac yn cael eu herio i gyrraedd ei lawn botensial mewn awyrgylch cyfeillgar, gofalgar, croesawgar a chreadigol. Bydd Ysgol Llan-y-pwll yn paratoi'r disgyblion i fod yn unigolion galluog, hyderus, hapus ac annibynnol drwy gydol eu hoes. Yn ganolig i hyn fydd defnyddio a datblygu'r iaith Gymraeg a dysgu am ein treftadaeth.





Bydd y dysgwyr yn cefnogi ei gilydd i fod yn hyderus ac yn wydn, gan groesawu her a dal ati i gyflawni eu nodau.  Byddant yn datblygu'r sgiliau hanfodol ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith.




**Ar draws y cwricwlwm, bydd y dysgwyr yn dathlu'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i treftadaeth.**

# Ysgol Llan-y-pwll- Dylunio ein Cwricwlwm

**Mae Ysgol Llan-y-pwll yn ysgol newydd sbon sydd yn agor ym mis Medi 2022 i ddisgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn yn y lle cyntaf. Mae hwn yn sefyllfa unigryw, ac rydym mewn sefyllfa lle nad oes hen Gwricwlwm yn bodoli yn yr ysgol. Megis dechrau ar y daith o Ddylunio'r Cwricwlwm rydym gan nad yw ein disgyblion wedi cyrraedd yr ystafell ddosbarth eto. Yn sgil hyn, mae ein proses o Ddylunio'r Cwricwlwm ar lwybr gwahanol i fwyafrif o ysgolion Cymru.**

## Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas

Dechreuom drwy sefydlu egwyddorion y cwricwlwm sy'n adlewyrchu gwerthoedd, cyd-destun, dulliau addysgeg ac anghenion Ysgol Llan-y-pwll. Gwnaethom rannu holiaduron gyda'r rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned er mwyn casglu eu syniadau nhw.

## Cam 2: Hawliau a Gwella – Datblygu ein cynnig i ddysgwyr

Buom yn ystyried yr hyn y bydd dysgwyr yn ei brofi wrth iddynt fynd drwy'r ysgol a meddwl am ffyrdd o gyfleu hyn. Does dim byd gennym i ystyried cadw, felly gwnaethom ffocysu ar yr hyn rydym eisiau. Cawsom ymatebion cyfoethog gan ein rhieni o'i gweledigaeth nhw ar gyfer addysg eu plant.

> Rhiant : Ysgol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn ganolig i'r dysgu, yn cael profiadau cyfoethog sy'n datblygu sgiliau er mwyn eu paratoi ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, ysgol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal, bod eu lles yn flaenoriaeth ac yn darparu awyrgylch saff a hapus ar gyfer y disgyblion a staff.

## Cam 3: Ehangder a Chydbwysedd – Pennu cynnwys ein cwricwlwm

Byddwn yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu i dynnu ynghyd amrywiaeth eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau. Cânt eu harchwilio drwy amrywiaeth o gyd-destunau, pynciau a gweithgareddau a ddewisir yn y broses o ddylunio cwricwlwm. Byddwn yn creu cysylltiadau ar draws y meysydd fel y bo'n briodol. Byddwn yn sicrhau fod Llais y Disgybl yn gryf wrth bennu gweithgareddau o fewn y dosbarth.

## Cam 4: Addysgeg – Cynllunio'r gwaith o gyflwyno ein cwricwlwm

Rydym wedi ceisio datblygu gweledigaeth gref o ran dysgu ac addysgu sy'n ystyried y 'pam' ar gyfer ein cwricwlwm, yn ogystal â'r beth a'r sut. Mae ein gweledigaeth yn cydnabod rôl hanfodol yr amgylchedd dysgu o ran cefnogi dysgu effeithiol.

## Cam 5: Cynnydd ac Asesu – Cynllunio ar gyfer Cynnydd

Mae cynnydd dysgwyr ar hyd continwwm dysgu 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio strategaethau asesu amrywiol a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio'n briodol


## Cam 6: Adolygu ac Arfarnu – Penderfynu beth sy'n gweithio'n dda a pha feysydd sydd angen eu datblygu

Megis dechrau rydym ar ddylunio ein cwricwlwm yn Ysgol Llan-y-pwll, felly byddwn yn adolygu yn rheolaidd ar yr addysgu a'r dysgu, gan wneud unrhyw addasiadau neu newidiadau sydd eu hangen arnom i'w wella. Byddwn hefyd yn cydweithio yn agos gydag ysgolion eraill ein clwstwr er mwyn manteisio ar y ffaith eu bod nhw wedi cael defnyddio'r cyfnod arbrofi dydyn ni ddim wedi ei gael.

## Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas

# Ein gwerthoedd a'n nodau

**Ar ôl holi'r rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned, y 10 gair allweddol hyn a gododd amlaf o ran beth sy'n bwysig yn yr ysgol –** Hapus Diogel Creadigol Gofalgar Amyneddgar Parchus Heriol Caredig Ysbrydoledig Arloesol




Byddwn yn ...

- cefnogi anghenion pob unigolyn i sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus ac yn cael eu cefnogi.

-hybu amgylchedd gofalgar ac anwythol a thrin ein gilydd gyda pharch.

- creu amgylchedd dysgu heriol fydd yn hybu datblygu sgiliau datrys problemau

- annog unigrywiaeth a dathlu gwahaniaethau

- hybu dewisiadau iach, cadw'n heini a chyfrannu i'r gymuned. Bydd meddylfryd twf a dyfalbarhau yn ganolig

-annog ein dysgwyr i fod yn greadigol ac yn ysbrydoledig ac i ddatblygu eu syniadau yn hyderus.

Dysgwr yn Ganolig – byddant yn unigolion ..

Hapus

Balch ag onest

Iach

Chwilfrydig

Caredig

Creadigol

Chwarae ac Ymchwilio

Cynnwys y Gymuned

Datrys Problemau

Dysgu Gweithrdol

Meddylfryd Twf

Ymholi dan Arweiniad Disgyblion

Dysgu ar gyfer Cynaliadwydd

Dysgu Digidol

### Cyfleoedd Cyffrous

Bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Bydd athrawon yn ystyried anghenion, safbwyntiau a chamau dysgwyr ac yn cynllunio profiadau cyffrous, heriol a blaengar ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad.

### Dysgu yn yr Awyr Agored

Bydd profiadau dysgu yn datblygu ac yn gwreiddio'r pedwar diben. Bydd y cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu dilys a hwyliog yn ein cymuned leol gan annog disgyblion i fwynhau ffordd iach o fyw.

### Hinsawdd y Dosbarth

Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu. Byddant yn cael cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd sy'n gwella eu dysgu a hefyd i gyflwyno eu gwaith yn eu ffordd bersonol unigryw eu hunain.

**Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas**

# Ysgol Llan-y-pwll– Cyd-destun

Ysgol gynradd Gymraeg newydd sbon yw Ysgol Llan-y-pwll. Mae'r ysgol wedi ei leoli ar gyrion dinas Wrecsam. Bydd gwaith adeiladu a moderneiddio yn digwydd ar yr ysgol yn ystod tymor yr Hydref.

Rydym yn cynnig darpariaeth cylch meithrin a meithrin mwy yn ystod sesiynau'r prynhawn. Unwaith i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau, byddwn yn cynnig sesiynau Ti a Fi yn yr ysgol.

Bydd uned trochi Wrecsam yn symud i Ysgol Llan-y-pwll unwaith mae'r gwaith adeiladu wedi ei gwblhau

Mae Ysgol Llan-y-pwll ar gyrion Parc Acton. Mae yn barc hanesyddol sydd yn gartref i amrywiaeth o goed, anifeiliaid a bywyd gwyllt, ac yn cynnwys llyn. Bydd defnydd rheolaidd yn cael ei wneud o'r Parc er mwyn cyfoethogi deallusrwydd y disgyblion o'r Byd Natur. Rydym wedi enwi ein dosbarthiadau ar ôl anifeiliaid a choed Parc Acton.

Bydd lle i 210 o ddisgyblion amser llawn amser erbyn i'r lenwi'r ysgol yn 2028. Ym mis Medi 2022, disgyblion dosbarth Meithrin a Derbyn yn unig fydd yn yr ysgol.

Cafodd Wrecsam ei henwi yn ddinas ym mis Mai 2022.

Yn Ysgol Llan-y-pwll, rydym yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn defnyddio'r dull trochi. Saesneg yw iaith gartref llawer o'r disgyblion. Bydd Saesneg yn cael ei gyflwyno mewn gwersi ysgol o'r hanner tymor olaf ym mlwyddyn 2.



## Cam 1: Egwyddorion a Phwrpas

# Ysgol Llan-y-pwll– Cyd-destun

Bydd Dysgu yn yr Awyr Agored yn rhan ganolig o ethos Ysgol Llan-y-pwll. Ymdrechwn i roi cyfleoedd i'n dysgwyr ddatblygu eu sgiliau trwy amrywiaeth o brofiadau o fewn eu hamgylchedd lleol.

Byddwn yn dathlu'r iaith Gymraeg, yn ogystal â diwylliant a threftadaeth Cymru trwy gydol ein gwaith. Byddwn yn sicrhau fod llawer o gyfleodd i'r dysgwyr brofi blas bywyd Cymraeg a chael amrywiaeth eang o brofiadau. Bwriadwn gydweithio gyda Menter iaith, Mudiad Meithrin, yr Urdd ac asiantaethau eraill - perthnasau rydym wedi dechrau sefydlu yn barod mewn digwyddiad yn Nhŷ Pawb.

.

Mae cerrig orsedd yr Eisteddfod hefyd wedi eu sefydlu ym Mharc Acton. Bydd hwn yn gyfle i ffocysu ar yr Eisteddfod a'n diwylliant Cymreig.



Yn ystod y Rhyfel Byd cyntaf a'r 2il Ryfel byd, roedd Maes Awyr RAF ar gyrion Borras. Dengys hyn gyfle i ddysgu am hanes lleol

Mae llawer o ardaloedd tu allan ar safle Ysgol Llan-y-pwll a bydd y rhain yn cael eu defnyddio yn bwrpasol i hybu ac i gyfoethogi profiadau'r dysgwyr.
Yn ogystal, mae gan Ysgol Llan-y-pwll ysgol Goedwig fydd yn cael ei ddefnyddio yn rheolaidd i ddatblygu sgiliau'r disgyblion.

Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgol gynradd Saesneg – Ysgol Parc Borras sydd drws nesaf



Rydym wedi ein lleoli ar gyrion pentref Gresffordd, pentref llawn hanes sy'n cynnwys pwll glo Gresffordd lle digwyddodd trychineb erchyll yn 1934.

Mae llawer o fwrlwm yn ninas Wrecsam am ddatblygiadau'r clwb pêl droed. Bydd Cymru yn chwarae yng Nghwpan y Byd hefyd o ddiddordeb ac yn sbarduno gweithgareddau.

## Cam 2 – Hawliau a Gwella

# Beth yw ystyr Cwricwlwm?



***“Dros y saith mlynedd nesaf, byddaf yn treulio mwy o amser yn Ysgol Llan-y-pwll nag unrhyw le arall… Beth fydda i’n ei ddysgu?”***

**Beth yw ystyr ‘Cwricwlwm’?**

Dylai’r cwricwlwm fod wrth ‘galon’ unrhyw ysgol. Mae ein cwricwlwm yn ffordd gydlynus o feddwl er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.
Bydd ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer ein dysgwyr.


***Felly, beth ddylen ni ei addysgu a pham? Sut dylem ni ei addysgu? Sut bydd hyn yn ein helpu i wireddu’r pedwar diben?***

Byddwn yn darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel, sy’n cyffroi ac yn ysgogi’r plant yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.



Bydd athrawon yn hwyluswyr dysgu. Gan ystyried anghenion, barn a chamau dysgu’r dysgwyr, byddant yn cynllunio profiadau hwyliog, heriol a blaengar. Bydd gan ddysgwyr lais cryf i ddylanwadu ar eu dysgu. Fel yr arbenigwyr; y staff addysgu fydd yn cyfarwyddo’r dysgu i gyfeiriad priodol gan ystyried barn a syniadau’r dysgwyr.
Bydd dysgwyr yn dylanwadu ar ddyluniad eu hamgylchedd dysgu. Byddant yn cael cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd sy’n cyfoethogi eu dysgu a hefyd dewisiadau o sut i gyflwyno eu gwaith yn eu ffordd bersonol unigryw eu hunain.





**Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:**
- gosod safonau uchel i’w hunain, yn edrych am ac yn mwynhau her;
- adeiladu sylfaen o wybodaeth ac yn meddu’r sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno o fewn testunau gwahanol;
- holi ac yn mwynhau datrys problemau;
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg;
- gallu esbonio'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau;
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol;
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu, darganfod a dadansoddi gwybodaeth;
- ymgymryd ymchwiliadau ac yn gwerthuso'n feirniadol yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod ac yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**
- cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion;
- meddwl mewn ffordd greadigol i ail-lunio a datrys problemau;
- nodi ac yn cymryd mantais o gyfleoedd;
- mentro’n bwyllog;
- medru arwain a chyfrannu i dîm mewn ffordd effeithiol a chyfrifol;
- mynegi eu syniadau ac emosiynau trwy gyfryngau gwahanol;
- rhoi eu hegni a'u sgiliau fel y gall eraill elwa ac yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

**Y Pedwar Diben**

**Unigolion iach, hyderus sy'n:**
- meddu ar werthoedd cryf ac yn sefydlu eu credoau moesol ac ysbrydol;
- adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi;
- cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd;
- gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r gefnogaeth i gadw'n ddiogel ac iach;
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol;
- gwneud penderfyniadau rhesymol yn eu ffordd o fyw, ac yn medru rheoli risg meddu ar yr hyder i gymryd rhan mewn perfformiadau;
- ffurfio perthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- wynebu ac yn goresgyn heriau;
- meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i reoli eu bywydau bob dydd mor annibynnol ag sy’n bosibl;
- barod i arwain bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Dinasyddion moesol, gwybodus sy'n:**
- darganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth lunio barn;
- ymgysylltu â materion cyfoes yn ôl eu gwybodaeth a'u gwerthoedd personol;
- ymarfer a deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd;
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu;
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffennol;
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas;
- yn dangos eu hymrwymiad i gynaladwyaeth y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.



Ein cymeriadau ar gyfer y 4 Diben

**Maw Cwricwlwm Ysgol Llan-y-pwll yn cynnwys y 6 Maes Dysgu a Phrofiad. Mae’n cwmpasu’r Datganiadau o’r Hyn sy’n Bwysig ac yn adlewyrchu’r Egwyddorion Cynnydd.**
**Mae’n cynnwys yr elfennau cwricwlwm gofynnol ac mae’n cwmpasu’r sgiliau trawsgwricwlaidd gofynnol a'r sgiliau annatod sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm.**


## Cam 2 - Hawliau a Gwella

# Cyfrifoldebau Cwricwlaidd


Bydd ein cwricwlwm yn Ysgol Llan-y-pwll yn gwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a'r sgiliau cyfannol sy'n sail i bedwar diben y cwricwlwm.
Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hanfodol i alluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben. Bydd y tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol hyn wedi'u gwreiddio a'u datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad i alluogi dysgwyr i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan ac i'w defnyddio yn y dyfodol.

Bydd dysgwyr Ysgol Llan-y-pwll yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

- ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- allu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- fod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd




Bydd y dysgwyr hefyd yn derbyn gwersi crefydd, gwerthoedd a moeseg ac Addysg Rhyw a Pherthnasedd fydd yn addas ar gyfer oed y dysgwyr.




Byddwn yn sicrhau wrth gynllunio fod dysgwyr Ysgol Llan-y-pwll yn cael ystod o brofiadau fydd yn datblygu eu sgiliau cyfannol.





### ADY

Yn Ysgol Llan-y-pwll byddwn yn sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael ei gwrdd drwy ddysgu o ansawdd uchel a phrofiadau dysgu cyfoethog. Yn ystod eu hamser yn Ysgol Llan-y-pwll, disgwylir i bob disgybl wneud cynnydd o'i man cychwyn. Bydd ein darpariaeth gyffredinol : sef addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu effeithiol, gwaith grŵp cydweithredol, ymyrraeth unigol a grŵp ac addasiadau priodol a rhesymol yn galluogi mynediad i bawb i'r amgylchedd, cwricwlwm a chyfleusterau'r ysgol
Os nad yw plentyn yn gwneud cynnydd, byddwn yn casglu arsylwadau, defnyddio data asesiadau a chyd-weithio gydag asiantaethau/ gweithwyr proffesiynol a rhieni i adnabod unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

### Iechyd a Lles


Yn Ysgol Llan-y-pwll bydd ffocws yn cael ei roi ar Iechyd a Lles y dysgwyr. Bydd amser yn cael ei roi i bob disgybl er mwyn adeiladu perthynas cadarnhaol e.e. drwy amser cylch Byddwn yn edrych mewn i adnoddau fel 'fun friends' i gefnogi lles ein dysgwyr ifanc.




Wrth ddylunio ein cwricwlwm byddwn hefyd yn plethu y 5 thema trawsgwricwlaidd.

## Cam 3: Ehangder a Chydbwysedd – Pennu cynnwys ein cwricwlwm

Byddwn yn cefnogi dysgwyr i gymryd rhan yn eu dysgu gyda dyfnder a soffistigeiddrwydd cynyddol dros gyfnod o amser. Byddwn yn cynorthwyo dysgwyr i gymhwyso eu dysgu mewn cyd-destunau sy'n fwyfwy heriol ac yn caniatáu dargyfeirio, atgyfnerthu a myfyrio. Yn ogystal, wrth i'w dealltwriaeth a'u cymhwysiad o'r dysgu allweddol ddatblygu byddent yn mireinio'n well dros amser, gan ysgogi meddwl dwfn, trafodaeth ac ymchwiliad.
Byddwn yn dechrau dadbacio'r 27 Datganiad o Beth sy'n Bwysig i wneud cysylltiadau ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn parhau pan fydd yr ysgol yn agor, ac yr ydym yn cydweithio ag ysgolion eraill yn y clwstwr i gefnogi hyn. Byddwn yn coladu ystod eang o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau i'w harchwilio drwy ystod o gyd-destunau, pynciau a gweithgareddau a ddewisir yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm.





## Cam 4: Addysgeg – Cynllunio'r gwaith o gyflwyno ein Cwricwlwm

Yn Ysgol Llan-y-pwll byddwn yn rhoi gwybodaeth a sgiliau disgyblaeth benodol i'n dysgwyr. Bob bore, bydd y dysgwyr Meithrin a Derbyn yn cael cyfnod bach i dawelu ac ymgartrefu yn y dosbarth am gyfnod byr cyn sesiwn byr o ddysgu uniongyrchol er mwyn datblygu meistrolaeth ieithoedd (e.e. ffoneg) a mathemateg (cyfri). Bydd gweddill y diwrnod yn cynnwys amrywiaeth o waith rhyngweithiol yn seiliedig ar thema'r tymor, gan gynnwys gwaith ar 'Gwestiwn Mawr' a thasgau a heriau yn dilyn o lais y disgybl. Yn ystod y dydd, bydd y dysgwyr hefyd yn gweithio mewn grwpiau bychain gyda defnydd eang o stori , gemau, caneuon, rhigymau a phethau digidol. Trwy gydol y dydd, bydd ein disgyblion yn cael mynediad i'r ardaloedd dysgu y tu mewn a'r tu allan.

Gwydnwch, goddefgarwch, sgiliau i ddatblygu yn holistaidd ar draws y cwricwlwm ond heb anghofio pwysigrwydd yr elfennau sylfaenol - darllen, ysgrifennu a mathemateg

Bydd Llais y Disgybl yn chwarae rhan ganolig yng ngwaith pob dydd Ysgol Llan-y-pwll. Disgyblion Meithrin a Derbyn yn unig fydd yn yr ysgol ym mis Medi 2022. Bydd thema pen agored yn cael ei ddewis, ac fel rhan o hwn bydd pwyslais mawr yn cael ei roi ar syniadau a diddordebau'r dysgwyr. Mae pob disgybl wedi derbyn Llyfr Cofnodi Syniadau i gofnodi ynddo dros yr haf. Rydym wedi gofyn i'r rhieni gwblhau'r rhain gyda'i plant fel ein bod ni yn cael sylfaen i ddod i adnabod pob plentyn ar ddechrau eu taith yn Ysgol Llan-y-pwll.




Byddwn yn cael sesiynau syniadau pob pythefnos pryd bydd cyfleoedd i'r dysgwyr gyfrannu eu syniadau nhw. Yn ogystal, gan fod y dysgwyr mor ifanc, bydd yr athrawes/ cymhorthydd yn gwrando ac yn arsylwi arnynt yn gyson er mwyn pigo fyny ar unrhyw drywydd diddordeb arall. Rydym yn y sefyllfa yn Ysgol Llan-y-pwll mai dosbarthiadau bychain sydd gennym, felly bydd pob disgybl yn cael llawer o gyfleoedd i gyfrannu.
Rydym hefyd am fanteisio ar lais y rhieni hefyd. Rydym eisoes wedi holi nhw am eu syniadau am beth buasent nhw yn hoffi i'w plant ddysgu. Byddwn yn parhau i roi'r cyfleoedd gwerthfawr yma yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn gwahodd y rhieni mewn i'r dosbarth bob hanner tymor er mwyn iddynt gael gweld beth mae eu plant wedi bod yn gwneud yn ystod yr wythnosau blaenorol.
Yn nhymor yr Hydref, bydd Ysgol Llan-y-pwll yn derbyn hyfforddiant dysgu ar sail ymholiad. Bydd hwn wedyn yn cael ei ymgorffori o fewn ein dosbarth.

### Llais ein Rhanddeiliaid

Datblygu sgiliau cyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig), sgiliau llythrennedd a rhifedd, cael eich arwain i fod yn feddyliwr annibynnol sy'n gallu datrys problemau a bod yn wydn.

## Cam 5: Cynnydd ac Asesu   Camau Cynnydd

Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio strategaethau asesu amrywiol a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny.

3 diben asesu

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Adnabod, dal a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer

Mae asesu yn chwarae rôl hanfodol mewn sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Yn Ysgol Llan-y-pwll byddwn yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gyfrannu at ddatblygu darlun cyflawn o'r dysgwr – ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu a'i feysydd i'w datblygu er mwyn llywio'r camau nesaf o ran dysgu ac addysgu.

**Asesu ar fynediad**

Bydd disgyblion newydd yn cael eu hasesu ar fynediad i'r ysgol. Mae rhiant pob disgybl Meithrin a Derbyn eisoes wedi derbyn holiadur copi caled ac ar-lein i gwblhau cyn i'r dysgwyr ddechrau'r ysgol yn holi am wybodaeth ddefnyddiol e.e. beth maent yn mwynhau, beth sy'n arbennig amdanynt a sut maent yn hoffi cael eu cefnogi. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth gyfoethog yma ac arsylwi ar y disgyblion yn eu hwythnosau cyntaf i adeiladu eu proffil unigol gan nodi eu cryfderau o ran sgiliau a'i galluoedd Llythrennedd a Rhifedd a galluoedd llesiant, i gynnwys datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Nod hwn yw i gael dealltwriaeth o alluoedd, sgiliau a gwybodaeth dysgwr mewn perthynas â'r cwricwlwm a nodi'r camau nesaf ar gyfer y dysgwyr.

**Asesu Dyddiol**

Byddwn yn nodi arsylwadau o unrhyw beth mae plentyn angen ei weithio arno a bydd yr athrawes/ cymhorthydd yn ymarfer hwn gyda'r unigolyn ar adegau yn ystod y dydd/ wythnos er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd.

**Asesu Wythnosol**


Ar ein cynlluniau, gwnawn nodi unrhyw anawsterau/agweddau sydd angen ail ymweld/neu asesiadau positif a sicrhau os oes anhawsterau neu angen ail ymweld bod cyfle i wneud hyn yr wythnos ganlynol.

**Asesu Hir Dymor**

Bydd gan bob plentyn ffeil digidol yn cynnwys samplau o waith Llafar, Darllen, Ysgrifennu a Rhifedd o'i hamser dechrau hyd at flwyddyn 6. Bydd hyn yn ffordd o ddangos cynnydd fel mae'r plentyn yn symud fyny drwy'r ysgol.

**Asesu Proffesiynol**

Bydd staff yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cael sgyrsiau proffesiynol mewn cyfarfodydd cynnydd wrth rannu samplau o waith a thrafod ac asesu cynnydd plentyn/plant eu dosbarth. Byddwn yn nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser; ac yn deall cynnydd grwpiau er mwyn adlewyrchu ar ein hymarfer.




### *Cyfathrebu ac ymgysylltu gyda rhieni/gofalwyr*

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n rheolaidd yn yn effeithiol gyda rhieni/gofalwyr i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn eu cynnwys mewn deialog bwrpasol ac ystyrlon. Wrth wneud hyn yn dda, gall helpu cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddeall sut y gallant gefnogi'r dysgu y tu mewn a thu allan i amgylchedd yr ysgol. Byddwn yn rhannu portffolio digidol y plentyn ar Seesaw a bydd y rhieni yn cael mynediad i hwn.

### *Ein rôl ni yn y pontio ar hyd y continwwm 3 i 16*

Byddwn yn cefnogi pob dysgwr ar hyd y continwwm dysgu, wrth iddynt symud rhwng gwahanol grwpiau, gwahanol ddosbarthiadau, gwahanol flynyddoedd a gwahanol leoliadau. Byddwn yn adnabod gofynion pob dysgwyr yn dda fel ein bod yn gallu sicrhau bod pob plentyn yn llwyddo ac yn cyrraedd eu potensial yn Ysgol Llan-y-pwll.